

Maethu

Llesiant Pan rydym yn dweud Llesiant mewn gwasanaeth maethu, rydym yn golygu – plant a phobl ifanc sy'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Maent yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt ac maent yn derbyn yr help sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt, yn y ffordd y maent yn dymuno ei gael. Caiff eu hawliau eu hamddiffyn, mae ganddynt lais a dewis a, chyn belled ag y bo'n ymarferol, rheolaeth o ran gwneud penderfyniadau am eu bywydau.		
CANLYNIADAU <i>Cefnogi Llesiant</i>	RHAI ENGHREIFFTIAU O SUT Y GALLAI DA EDRYCH	DYLAI AROLYGWYR WERTHUSO I BA RADDAU Y MAE PLANT A PHOBL IFANC:
Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod Rwy'n cael fy nghynorthwyo i fod mor iach ac egniol â phosibl Rwy'n gallu mynegi fy sylwadau a'm safbwyntiau Rwy'n teimlo fy mod i'n perthyn a bod gen i gysylltiadau cadarnhaol diogel Mae gen i berthynas dda gyda'r bobl sy'n gofalu amdanaf Gallaf gael fy nghynnwys, cymryd rhan a theimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn botensial Rwy'n fodlon/ hapus Gallaf wneud pethau sy'n bwysig i mi Rwy'n derbyn anogaeth a chymorth i sicrhau fy mod i mor annibynnol â phosibl Gallaf dderbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg	Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac wedi eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Maent yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn derbyn gofal ymatebol sy'n cymryd eu dymuniadau a'u teimladau i ystyriaeth. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, sy'n eu cadw'n heini ac yn iach. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddeiet, hybu iechyd a gweithgareddau hamdden. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i leisio eu barn a gwrandewir arnynt. Mae ganddynt fynediad at eiriolwr wrth i gynnig gweithredol gael ei wneud. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin gydag urddas a pharch ac yn cael cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o'u hunaniaeth / diwylliannau unigol. Mae plant a phobl ifanc yn byw ac yn ffynnu mewn lleoliadau diogel a sefydlog, lle maent yn datblygu perthynas ddiogel a chadarn gyda'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofawyr maeth fel y bo'n briodol Caiff budd pennaf plant a phobl ifanc ei ddeall a'i hybu. Sicrhau cymaint o annibyniaeth iddynt â phosibl trwy gymryd risgiau cadarnhaol. Mae plant / pobl ifanc yn fodlon yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ddeallusol.	- yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, bwlio, esgeulustod a phob math o gam-fanteisio - yn cael eu hannog i gadw'n heini ac yn iach - yn elwa ar ddeiet iach a ffordd iach o fyw - yn cael eu cynorthwyo i ofalu amdanynt eu hunain - yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau a phenderfyniadau - yn cael gwrandawriad a gwerthfawrogiad o bob ymdrech i gyfathrebu - yn cael eu hannog i siarad a mynegi eu hunain - yn hyderus bod y staff yn deall eu hanghenion - y derbyn cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o'u hunaniaeth / diwylliannau eu hunain - wedi setlo ac yn gyfforddus gyda staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn rhoi gofal a chymorth cyson a pharhaus iddynt, sy'n magu hyder a hunan-barch cadarnhaol; - yn cael profiad o agosrwydd, ymlyniad a pherthyn; - yn cael eu cynorthwyo i ymdopi â chyfnodau anodd o newid, a digwyddiadau

Maethu

Rwy'n byw mewn llety sy'n diwallu fy anghenion ac yn fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod i mor annibynnol â phosibl a bod fy llesiant cymaint â phosibl	Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Caiff plant a phobl ifanc eu hannog i wneud dewisiadau ac fe'u cynorthwyr i gymryd cyfrifoldeb. Rhoddir cymorth i blant a phobl ifanc o ran eu hanghenion iechyd corfforol, emosiynol a seicolegol. Cânt eu cynorthwyo i ddatblygu hunan-barch cadarnhaol. Caiff plant a phobl ifanc eu hannog i fod yn greadigol, i ddilyn eu diddordebau, i archwilio heriau newydd ac i gael synnwyr o gyflawniad. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn derbyn gofal a chymorth ymatebol lle gwrandewir ar eu cyfathrebiad llafar ac nad yw'n llafar ac y cymerir camau ar sail hynny. Caiff plant a phobl ifanc eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a datblygu eu sgiliau unigol gan gynnwys sgiliau bywyd ymarferol. Caiff plant a phobl ifanc eu hannog a'u cynorthwyo i wireddu eu potensial addysgol gan gymryd eu cyrhaeddiad a'u cynnydd o ddechrau eu lleoliad i ystyriaeth. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol gyda chysylltiadau priodol â'r gymuned. Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ymarferol yn y gwaith o gynllunio ar gyfer eu dyfodol a pharatoi ar gyfer gadael gofal a bod yn annibynnol. Mae plant a phobl ifanc yn cael canlyniadau cadarnhaol gan	a sefyllfaoedd anodd; • yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus gyda pharch tuag at eu hawliau; • yn gwybod pwy i siarad â nhw os byddant yn anhapus neu'n poeni am rywbeth • yn mwynhau Llesiant cynyddol gan fod eu hanghenion yn cael eu deall a'u hwyluso • yn cael dealltwriaeth o'u profiadau cynharach o ymlyniad a thrawma • yn cael gwireddu eu potensial addysgol; gan gymryd eu cyrhaeddiad a'u cynnydd o ddechrau eu lleoliad i ystyriaeth. • yn cael diwallu eu hanghenion iechyd corfforol, emosiynol a seicolegol • yn cael eu hannog i fod yn greadigol, i ddilyn eu diddordebau, archwilio heriau newydd a chael profiad o synnwyr o gyflawniad. Mae ganddynt fynediad at y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Pwyslais cryf ar weithgareddau unigol yn ogystal â rhai grŵp
---	---	--

Maethu

	fod yr asiantaeth a'u gofalwyr yn gweithio'n rhagweithiol gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill.	
CANLYNIADAU <i>Ansawdd Gofal a Chymorth</i> <i>h.y. Asesu, Cynllunio, Adolygu</i>	RHAI ENGHREIFFTIAU O SUT Y GALLAI DA EDRYCH	DYLAI AROLYGWYR WERTHUSO I BA RADDAU Y MAE PLANT A PHOBL IFANC:
Rwy'n derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir yn ffordd rwy'n dymuno ei dderbyn Rwy'n cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol Mae gen i berthynas dda gyda'r gofalwyr maeth a'r staff Rwy'n cael fy nhrin gydag urddas a pharch Rwy'n derbyn gofal trwy gyfrwng yr iaith sydd ei hangen arnaf Caiff fy anghenion eu deall Rwy'n gallu cyfathrebu â staff sy'n gofalu amdanaf trwy gyfrwng y Gymraeg	Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo gan ofalwyr maeth medrus sy'n darparu sefydlogrwydd ym mywyd plant ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu profiadau, eu cynnydd a'u canlyniadau Gwrandewir ar blant a phobl ifanc ac maent yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau am y gofal y maent yn ei dderbyn a'r ffordd y maent yn treulio eu hamser. Mae gofalwyr maeth yn deall ac yn dangos bod y plentyn / unigolyn ifanc y maent yn ei faethu yn teimlo'n rhan o'u teulu; maent yn gallu creu a chynnal cyswllt â rhieni ac oedolion arwyddocaol eraill (pan fo'n briodol). Mae plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth rhagweithiol ac ataliol a rhagwelir eu hamrywiaeth eang o anghenion. Caiff materion amrywiaeth eu hystyried. Mae gofalwyr maeth a staff yn hybu addysg plant a phobl ifanc trwy gyfathrebu da gyda'r ysgol, presenoldeb mewn nosweithiau rhieni a chymorth gyda gwaith cartref, gan annog y plant i fod yn uchelgeisiol Mae plant a phobl ifanc yn byw bywyd iach, yn derbyn cyngor ar fyw'n iach ac, yn ôl yr angen, yn cael cynnig cymorth emosiynol, corfforol, seicolegol a therapiwtig effeithiol. Mae plant a phobl ifanc yn cael canlyniadau cadarnhaol gan	- Yn derbyn asesiadau ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod y lleoliad a gwasanaethau arbenigol lleol yn gallu diwallu eu hanghenion unigol - yn meddu ar gynlluniau lleoliad sy'n dechrau cyn symud i mewn i'r cartref er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ofid a phryder ar yr adeg derbyn ac yn ystod y cyfnod pontio - yn cael eu trin gydag urddas a pharch - yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal - yn derbyn gofal prydol, priodol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - yn derbyn adolygiadau rheolaidd sy'n cael eu cofnodi, eu gweithredu a'u cyfathrebu i bobl berthnasol sy'n rhan o'u bywydau - yn cael eu sicrhau bod perthnasau a gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn asesiadau ac adolygiadau fel sy'n briodol I ba raddau y mae'r staff yn hybu Llesiant a diogelu ac yn gallu: - adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth - gweithio yn unol â pholisi diogelu'r lleoliad

Maethu

	fod yr asiantaeth faethu a'r gofalwyr maeth yn gweithio'n rhagweithiol ac yn gadarnhaol gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau o ran mynegi eu hemosiynau a datblygu cysylltiadau cadarnhaol, waeth beth fo'u cefndir a'u profiadau blaenorol. Mae gan yr asiantaeth, eu holl ofalwyr maeth a'u staff ddealltwriaeth eglur ac arfer effeithiol o ran diogelu plant a phobl ifanc gan gynnwys datgelu camdriniaeth ac effaith hyn ar ddatblygiad ac ymddygiad y plentyn neu unigolyn ifanc Pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd ar goll, caiff camau eu cymryd i sicrhau eu diogelwch. Mae'r asiantaeth faethu a'r gofalwyr maeth yn ymwybodol o'r ffactorau a allai arwain at blant a phobl ifanc yn mynd ar goll ac yn cymryd camau i sicrhau bod y risg cyn lleied â phosibl Mae gofalwyr maeth yn cymryd absenoldebau 'seibiant' pan fydd o fudd i'r plentyn/unigolyn ifanc, gan gynnwys gwell sefydlogrwydd, ac mae unrhyw leoliad amgen rhoi ystyriaeth lawn i anghenion y plentyn neu'r unigolyn ifanc Mae gofalwyr maeth yn cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau ac wedi eu grymuso i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch y plant y maent yn gofalu amdanynt Ceir tystiolaeth o 'gynnig gweithredol'* o ran y Gymraeg a gall y plant sydd ei angen dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg Cynigir agosrwydd, anogaeth a chymorth emosiynol i blant a phobl ifanc	• deall iechyd a diogelwch • rhoi cymorth cyntaf • rheoli ymddygiad yn gadarnhaol; gan gynnwys ymyrraeth ffisegol • nodi risgiau i blant a phobl ifanc agored i niwed Pa mor dda mae'r staff: • yn adnabod, yn deall ac yn gallu diwallu anghenion a galluoedd unigol plant a phobl ifanc • yn darparu awyrgylch/amgylchedd gofalgar • yn darparu gofal ymatebol • yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth • yn ystyried sut y mae'r holl anghenion iaith a chyfathrebu yn cael eu diwallu a sicrhau y bu 'cynnig gweithredol'* o'r Gymraeg • yn hybu Llesiant plant a phobl ifanc, er enghraifft sut y maent yn cynnig cyfleoedd priodol ar gyfer anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol, addysg a hamdden • yn trin plant a phobl ifanc gydag urddas a pharch • yn sicrhau bod preifatrwydd plant a phobl ifanc yn cael ei barchu • yn darparu i bobl ddefnyddio a chael profiad o'r Gymraeg • yn darparu gofal mewn iaith ac eithrio'r Saesneg
--	---	--

Maethu

	Caiff plant a phobl ifanc eu cynorthwyo i ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda chyfoedion ac oedolion	
Canlyniadau Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Rhai enghreifftiau o sut y gallai da edrych	Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr o ran
Rwy'n adnabod ac yn deall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael i mi Rwy'n derbyn gofal a chymorth o ansawdd uchel gan wasanaeth sy'n gosod safonau uchel i'w hun, sydd wedi ymrwymo i sicrhau ansawdd a gwelliant parhaus Rwy'n elwa o ofal sydd wedi ymrwymo i arloesedd ac wedi ei hysbysu gan arfer gorau Rwy'n gallu mynegi fy mhryderon Rwy'n gallu cyfrannu at ddatblygu gwelliant y gwasanaeth Rwy'n elwa o wasanaeth effeithlon lle gwneir y defnydd gorau o adnoddau Rwy'n elwa o wasanaeth lle rhoddir blaenoriaeth i Lesiant gofalwyr maeth a staff ac y caiff gofalwyr maeth a staff eu harwain, eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda.	Mae systemau monitro cadarn a thryloyw ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth o ran y canlyniadau i blant a phobl ifanc, sy'n cynnwys adborth gan blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Mae anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw yn y cartref maeth yn gydnaws. Mae gweledigaeth a diben y gwasanaeth yn eglur. Ceir tystiolaeth o ysgogi gwelliant parhaus a pharodrwydd i ddysgu o arfer gorau, cwynion a wnaed gan blant a phobl ifanc, digwyddiadau ac adborth gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae arweinwyr a rheolwyr yn dangos gweledigaeth ac uchelgais eglur i blant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu. Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn gallu diwallu anghenion amrywiol plant a phobl ifanc. Mae gofalwyr maeth yn derbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth effeithiol ac mae lleoliadau yn effeithiol a sefydlog o ganlyniad. Mae'r asiantaeth yn recriwtio, yn asesu, yn paratoi, yn cefnogi ac yn hyfforddi gofalwyr maeth mewn ffordd sy'n cynorthwyo cynnydd ac yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.	- yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a gweithdrefnau gofynnol (Diwygio yn unol â'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu) - yn meddu ar ddatganiad o ddiben eglur a chynhwysfawr sy'n cynnig darlun cywir o'r lleoliad ac yn cynnwys eu safbwynt o ran "Cynnig Gweithredol" - yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad ac yn cydweithredu ag eraill i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc - yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau - yn hybu arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch - yn creu ethos a diwylliant cadarnhaol lle mae pobl a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi - yn pennu disgwyliadau uchel ac uchelgeisiol - yn datblygu synnwyr o bwrpas sy'n hybu a chynnal gwelliannau - yn pennu nodau a pholisïau eglur sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ac y mae'r holl staff yn eu deall a'u gweithredu

Maethu

	Mae'r pwyslais ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw oddi wrth eu teuluoedd. Mae'r broses recriwtio a fetio yn drylwyr. Mae'r asiantaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth. Os yw'r asiantaeth, yn unol â'i ddatganiad o ddiben, yn cynnig lleoliadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac ymddygiad sy'n herio, mae'n darparu'r gefnogaeth a'r cymorth arbenigol angenrheidiol am mor hir ag y mae'n ofynnol. Mae gofalwyr maeth a staff yn cael eu hyfforddi mewn meysydd penodol yn unol â Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ac yn dangos dealltwriaeth dda o ran anghenion plant a phobl ifanc, fel hunan-niwieidio a cham-fanteisio rhywiol. Mae gofalwyr maeth a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan yr asiantaeth sy'n eu helpu i ymdopi â gofynion ychwanegol maethu ar eu bywyd teuluol. Mae'r panel maethu yn hybu lleoliadau diogel trwy sicrhau ansawdd trwyadl, wedi ei hybu trwy asesiadau, cymorth a hyfforddiant i ofalwyr maeth. Defnyddir asesiadau trwyadl i nodi gofalwyr maeth addas ac mae paru gofalus yn cyfrannu at sefydlogrwydd lleoliadau a'r gallu i gadw gofalwyr maeth. Caiff gwybodaeth lawn ei rhannu gyda gofalwyr maeth cyn y lleoliad bob amser.	Effeithiolrwydd adolygu a chynllunio gofal o ansawdd ar gyfer ysgogi gwelliant Dylai arolygwyr ystyried a yw proses adolygu ansawdd gofal y lleoliad: - wedi ei hymsefydlu mewn gwaith cynllunio strategol a gweithredol ac yn manteisio ar weithdrefnau sicrhau ansawdd rheolaidd - yn cynnwys yr holl staff yn y gwaith o asesu canlyniadau a'u perfformiad eu hunain, fel myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd - yn cymryd safbwyntiau plant a phobl ifanc, staff, perthnasau (rhieni pan yn briodol) ac awdurdodau lleoli/comisiynwyr i ystyriaeth ac yn llunio adroddiad a rennir gyda'r holl gyfranwyr - yn manteisio ar adolygiadau, cyngor ac adborth gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol - yn monitro a gwerthuso canlyniadau i blant a phobl ifanc; - yn arwain at gynlluniau / strategaethau datblygu sy'n cael eu monitro yn erbyn targedau a meini prawf llwyddiant eglur - yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno eu gwella - yn cymryd i ystyriaeth pa un a yw pryderon / cwynion wedi cael sylw priodol ac yn ystyried sut i weithredu unrhyw ddysgu / gwelliannau angenrheidiol o'r rhain. Rheoli staff ac adnoddau Dylai arolygwyr werthuso sut y mae arweinwyr a rheolwyr: - yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn a
--	---	---

Maethu

	Mae partneriaethau effeithiol gyda phawb sy'n ymwneud â'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal ar waith, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain, gweithwyr cymdeithasol, meysydd addysg ac iechyd a gwasanaethau proffesiynol eraill. Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc gael hwyl ac ymgysylltu â'u cymuned. Mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro, adolygu ac olrhain cynnydd plant a phobl ifanc unigol i asesu ansawdd y gwasanaeth a phrofiadau plant a phobl ifanc. Cymerir camau os nad oes cynnydd yn cael ei wneud neu os yw'r plant yn anhapus neu mewn perygl. Mae'r asiantaeth yn sicrhau bod eu gofawyr maeth yn ymwybodol o bolisi ysgrifenedig yr awdurdodau lleol lleoli ar awdurdod dirprwyedig a bydd yn herio'r awdurdod lleol pan fydd plant a phobl ifanc unigol dan anfantais os nad yw'r awdurdod hwnnw yn cael ei ddirprwyo'n briodol. Mae rheolwyr yn adolygu ac yn gweithredu ar sail patrymau a thueddiadau wrth recriwtio gofawyr maeth ac yn cymryd camau i recriwtio, datblygu, cynorthwyo a chynnal niferoedd digonol o ofalwyr maeth â'r sgiliau cywir. Maent yn monitro sefydlogrwydd lleoliadau ac yn cymryd camau yn ôl y gofyn. Mae rheolwyr yn sicrhau bod gofawyr maeth yn meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu am blant yn iawn, gan gynnwys pan fydd lleoliadau brys yn cael eu trefnu.	phrydlon • yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau • yn meddu ar system effeithiol o oruchwyllo a gwerthuso staff sy'n arwain at dargedau a gytunir • yn sicrhau bod staff digonol sydd â chymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol a phriodol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc • yn sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu swyddogaethau o ran nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol y lleoliad • yn rheoli eu hamser eu hunain ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ymatebol • yn cytuno a bodloni targedau heriol a realistig ar gyfer eu hunain ac eraill • yn trafod ac yn cydweithredu'n dda gyda staff ac asiantaethau allanol • yn sicrhau bod niferoedd staff digonol a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol • yn datblygu cynlluniau staffio wrth gefn • yn meddu ar olwg eglur ar y ddarpariaeth o wasanaethau • yn cefnogi ymgysylltiad gweithredol yr holl staff â chynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau proffesiynol, gan gynnwys cymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol lleoliad cyfan Effeithiolrwydd partneriaethau Dylai arolygwyr ystyried pa un a yw'r gwasanaeth
--	--	---

Maethu

		yn eglur am ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau i sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebiad eglur rhwng partneriaid. Dylai'r arolygwyr werthuso pa mor dda mae'r lleoliad: • yn gweithio gyda staff a chynrychiolwyr i wella gofal/cymorth a Llesiant plant a phobl ifanc • yn cynnwys pobl eraill mewn adolygiadau a phenderfyniadau am Lesiant plant a phobl ifanc • yn asesu effaith partneriaid, e.e. yr awdurdod lleol, byrddau iechyd lleol, y gymuned, asiantaethau eirioli, darparwyr hyfforddiant, yr heddlu a sefydliadau gwirfoddol
--	--	---